





Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

# Arweiniad ar addasrwydd ar gyfer y radd mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru



## Manylion cyswllt

### Gofal Cymdeithasol Cymru

South Gate House  
Wood Street  
Caerdydd CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444  
Minicom: 029 2078 0680  
E-bost: gwybodaeth@  
gofalcymdeithasol.cymru

[gofalcymdeithasol.cymru](http://gofalcymdeithasol.cymru)

Twitter: @GofCymdeithasol

© 2019 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i storio mewn system adalw na'i drosglwyddo mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylid anfon ymholiadau am atgynhyrchu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a nodir uchod.

### Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael ar ffurf hawdd ei darllen, print mawr neu fformatau eraill os oes angen.

Mae copïau ar gael yn Saesneg hefyd

---

## Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
-----------------	---

### Adran 1

Ymgeisio, dewis a chofrestru myfyrwyr.....	5
Cyn i'r myfyriwr gael ei dderbyn ar raglen radd mewn gwaith cymdeithasol.....	5
Gwybodaeth i ymgeiswyr.....	6
Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.....	7
Iechyd ac addaswydd.....	7
Y broses asesu addaswydd.....	7
Diogelu data.....	7
Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.....	8
Materion ymddygiad.....	8
Cyflyrau iechyd.....	9
Crynhoi'r cyfrifoldebau.....	10
Trosolwg o'r broses ymgeisio.....	11

### Adran 2

Materion addaswydd sy'n codi yn ystod hyfforddiant cymhwysio.....	12
Addaswydd – camymddygiad proffesiynol.....	12
Addaswydd – pryderon iechyd.....	12
Rôl y sefydliad addysg uwch wrth ymchwilio i bryderon ynghylch addaswydd.....	13
Trosolwg o ddefnyddio achosion addaswydd.....	14
Myfyrwyr sy'n tynnu yn ôl o'u rhaglenni.....	15
Crynhoi'r cyfrifoldebau.....	16

### Adran 3

Dyfarniadau ar ôl cymhwysio.....	17
----------------------------------	----

---

## Cyflwyniad

Mae pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth a'r cyhoedd yn disgwyl i weithwyr cymdeithasol fod wedi'u hyfforddi'n dda, gweithio yn unol â safonau uchel a bod yn atebol am eu gweithredoedd.

Felly, mae angen i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol fodloni disgwyliadau a chyfrifoldebau clir, a all fod yn wahanol i fyfyrwyr eraill.

Mae angen i fyfyrwyr gofal cymdeithasol gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar ddechrau eu hyfforddiant, ac mae angen iddynt ddangos eu bod yn deall ac yn cymhwyso'r *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* yn eu dysgu academaidd a'u dysgu wrth ymarfer.

Mae *Rheolau Cymeradwyo ac Arolygu Cyrsiau Gradd Gwaith Cymdeithasol (Cymru) 2018* yn nodi meini prawf penodol ar gyfer cael eich derbyn ar raglenni gwaith cymdeithasol. Hefyd, mae'r rheolau'n mynnu bod gan sefydliadau addysg uwch weithdrefnau clir ar gyfer pennu pa mor addas yw'r myfyrwyr a therfynu eu hyfforddiant os gwelir bod myfyriwr yn anaddas ar gyfer gwaith cymdeithasol.

Mae addysg gwaith cymdeithasol yng Nghymru yn brofiad dysgu integredig, gyda hanner profiadau dysgu'r myfyriwr yn cael eu gwneud yn ystod ymarfer. Mae'r model ar gyfer cyflawni addysg gwaith cymdeithasol yn seiliedig ar bartneriaeth o sefydliadau addysg uwch, cyflogwyr, pobl ag anghenion gofal a chymorth, a gofalywyr; gyda phartneriaid cyflogi yn chwarae rôl arweiniol wrth reoli trefniadau dysgu wrth ymarfer.

Mae'r ddogfen hon yn darparu arweiniad ar rolau a chyfrifoldebau sefydliadau addysg uwch, eu partneriaid cyflogi a Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn sicrhau bod y myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn addas ar gyfer hyfforddiant a chofrestru proffesiynol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi datblygu'r arweiniad hwn ar y cyd â'r rhaglenni sy'n darparu'r radd mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru.



# Adran 1

## Ymgeisio, dewis a chofrestru myfyrwyr

Mae'r adran hon yn nodi beth ddylai ddigwydd cyn i fyfyrwr gofrestru ar raglen radd gwaith cymdeithasol yng Nghymru.

### Cyn i fyfyrwr gael ei dderbyn ar raglen radd gwaith cymdeithasol

Cyn derbyn ymgeisydd i raglen, rhaid i'r sefydliad addysg uwch, ynghyd â'i bartneriaid, gynnal asesiad i fod yn rhesymol o sicr bod:

- gan yr ymgeisydd y potensial i fodloni gofynion y cwrs
- gan yr ymgeisydd ddigon o brofiad perthnasol mewn gofal cymdeithasol fel ei fod yn gallu arddangos y gwerthoedd a'r sgiliau sylfaenol sy'n cyfateb i'r rheiny a ddisgwylir yn gyffredinol gan weithwyr cymdeithasol
- yr ymgeisydd yn deall y Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol.

- a yw'r ymgeisydd wedi'i osod ar restr sy'n ei wahardd rhag gweithio gyda phlant a/neu oedolion sydd mewn perygl
- unrhyw faterion disgyblu yn gysylltiedig â'r gwaith
- a yw'r ymgeisydd wedi cael gofal a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol
- unrhyw faterion iechyd a allai effeithio ar addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol.

Er y bydd sefydliadau'n amrywio o ran eu prosesau dewis, dylai unrhyw gynnig ffurfiol gynnwys datganiad yn nodi ei fod yn cael ei wneud yn amodol ar ddatgelu a gwahardd a gwiriadau iechyd boddhaol.

Hefyd, rhaid i'r sefydliad addysg uwch "fod yn fodlon ag addasrwydd meddygol a chymeriad yr ymgeisydd o ran ei addasrwydd i weithio ym maes gofal cymdeithasol".<sup>1</sup> Rhaid i'r ymgeisydd lenwi ffurflen hunanddatganiad er mwyn llywio'r asesiad hwn, a gwneir gwiriad manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Yn unol â Rheolau Cymeradwyo ac Arolygu Cyrsiau Gradd Gwaith Cymdeithasol (Cymru) 2018, rhaid i'r sefydliad addysg uwch:

(3)(c) "fodloni ei hun, os bydd angen i'r ymgeisydd fod yn gofrestredig dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, bod y rhif a ddyrannwyd i'r ymgeisydd hwnnw gan yr Awdurdod Diogelu Annibynnol wedi cael ei ddarparu."

Rhaid i'r ffurflen hunanddatgan gynnwys:

- unrhyw hanes troseddol, gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw rybuddiadau, euogfarnau neu geryddon

1. Rheolau Cymeradwyo ac Arolygu Cyrsiau Gradd Gwaith Cymdeithasol (Cymru) 2018, Yr Atodlen (3) (a)

## Gwybodaeth i ymgeiswyr

Dylai sefydliadau addysg uwch sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gwybod:

- a) efallai y bydd angen i'r wybodaeth maent yn ei darparu ar y ffurflen hunanddatganiad gael ei rannu gyda thrydydd partion i'w dilysu
- b) y canlyniadau os na ddatgelir gwybodaeth ar y ffurflen hunanddatganiad, neu os caiff ei datgelu'n anghywir
- c) gall eu hymddygiad y tu hwnt i'r rhaglen waith cymdeithasol – gan gynnwys yr hyn sy'n digwydd yn eu bywydau personol – effeithio ar eu haddasrwydd i ymarfer gwaith cymdeithasol
- d) ni fydd gwneud datganiad yn golygu y bydd yr ymgeisydd yn anaddas i hyfforddi i fod yn weithiwr cymdeithasol yn awtomatig. Fodd bynnag, efallai y bydd angen ymchwilio i fanylion ac amgylchiadau'r hyn mae'n ei ddatgelu, neu sy'n dod i'r amlwg yn ddiweddarach, dan weithdrefnau addasrwydd
- e) mae unrhyw gynigion gan y sefydliad addysg uwch yn cael eu gwneud ar wahân i benderfyniadau a wneir gan Ofal Cymdeithasol Cymru ynghylch addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer. Gwneir penderfyniadau am gofrestru ar sail unigol, felly gallai Gofal Cymdeithasol Cymru wrthod cofrestru ymgeisydd er ei fod wedi cael cynnig gan sefydliad addysg uwch. Ni fydd yn cael ei dderbyn yn llawn ar raglen waith cymdeithasol nes iddo gael ei gofrestru gan Ofal Cymdeithasol Cymru
- f) goblygiadau peidio â bod yn gofrestredig gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Er enghraifft, peidio â gallu hyfforddi'n broffesiynol
- g) y gweithdrefnau apelio a chwyno ar gyfer y rhaglen.

## Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Rhwng gwneud cais ac wythnos gyntaf y rhaglen, dylai'r sefydliad addysg uwch drefnu gwiriad manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer pob ymgeisydd.

Dylid ymchwilio i unrhyw wybodaeth sy'n dod i'r amlwg o'r gwiriadau hyn sy'n codi amheuaeth am addasrwydd ymgeisydd, a'i dogfennu, a dylid tynnu'r cynnig yn ôl os yw hynny'n briodol ac yn gymesur. Dylai'r sefydliad addysg uwch ddilyn ei broses gytunedig os bydd ymgeisydd yn datgan euogfarnau neu faterion eraill sy'n codi pryderon am addasrwydd yr ymgeisydd, neu os bydd gwiriad DBS yn canfod y rhain. Dylai partneriaid cyflogi fod yn rhan o'r broses benderfynu hon.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn defnyddio'r materion a restrir gan y DBS fel canllaw wrth benderfynu a ddylid cofrestru ymgeisydd.<sup>2</sup>

Dylai sefydliadau addysg uwch a phartneriaid cyflogi wirio yn erbyn y materion hyn wrth benderfynu a yw'r ymgeisydd yn addas, gan y bydd hyn yn lleihau'r risg o dderbyn ymgeiswyr ar y rhaglen ac yna gwrthod eu cofrestru.

## Iechyd ac addasrwydd

Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd cyflyrau iechyd ac anabledau'n codi pryderon ynghylch addasrwydd, ar yr amod fod y myfyriwr yn cael cymorth priodol a'r addasiadau rhesymol sydd eu hangen er mwyn astudio a gweithio'n ddiogel mewn rôl gwaith cymdeithasol.

Fodd bynnag, mae angen i raglenni fod yn hyderus y gall ymgeiswyr fodloni gofynion dysgu academaidd ac ymarferol, a pha mor anodd yw hyfforddi proffesiynol. Dylai sefydliadau addysg uwch ddilyn eu prosesau cytunedig os bydd ymgeisydd yn datgan unrhyw faterion iechyd sy'n codi pryderon ynghylch pa mor addas ydyw ar gyfer gwaith cymdeithasol.

## Y broses asesu addasrwydd

Os bydd y ffurflen hunanddatgan, y gwiriad DBS a/neu unrhyw broses asesu arall yn arwain at ddatgelu gwybodaeth sy'n berthnasol i addasrwydd, bydd angen i'r sefydliad addysg uwch ddilyn eu gweithdrefnau ar gyfer asesu hyn. Dylai'r gweithdrefnau fod yn glir, yn dryloyw a chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Gallai'r broses hon gynnwys sefydlu panel i asesu'r sefyllfa. Dylai'r panel gynnwys cynrychiolwyr o'r partneriaid cyflogi. Os bydd yr ymchwiliad yn canfod bod yr ymgeisydd yn addas, dylai'r sefydliad addysg uwch wneud cynnig sy'n amodol ar ei gofrestriad gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Os bydd yr ymchwiliad yn canfod nad yw'r ymgeisydd yn addas, dylid gwrthod ei gais oherwydd nid yw'n bodloni'r gofynion ar gyfer y rhaglen.

Dylid dogfennu'r penderfyniad a wneir gan y panel, a dylid storio'r wybodaeth yn ddiogel a'i rhannu'n briodol. Dylai'r sefydliad addysg uwch sicrhau bod yr ymgeisydd yn gwybod am ei broses apelio a chwyno.

Efallai y bydd sefydliadau addysg uwch eisiau cynnal yr asesiad addasrwydd hwn pan fyddant yn gwneud y cynnig, yn ystod y camau cofrestru ac ailgofrestru, rhag ofn y bydd unrhyw amgylchiadau wedi newid.

## Diogelu data

Rhaid i raglenni sicrhau eu bod yn diogelu data'r ymgeisydd ac yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018. Hefyd, rhaid iddynt sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ymwybodol o'u hawliau a sut bydd eu data'n cael ei ddiogelu.

Gallwch ddysgu mwy am y ddeddf ar: [www.gov.uk/government/collections/dataprotection-act-2018](http://www.gov.uk/government/collections/dataprotection-act-2018)

2. Edrychwch ar yr adran *Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru* ar dudalen 7 amfwy o wybodaeth

## Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

Dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, mae Gofal Cymdeithasol Cymru'n gyfrifol am gadw Cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol.

Ar ôl cael cynnig amodol gan sefydliad addysg uwch, bydd ymgeiswyr yn cael eu gwahodd gan Ofal Cymdeithasol Cymru i gofrestru ar ei borth ar-lein, sef *GCCarlein*. Pan fydd yr ymgeisydd wedi cwblhau'r cais i gofrestru, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn asesu addasrwydd yr ymgeisydd i gofrestru.

Os bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn penderfynu bod yr ymgeisydd yn addas i gofrestru, bydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd ei fod wedi'i gymeradwyo ond heb ei gofrestru eto.

Bydd y broses gofrestr'n dod i ben pan fydd y sefydliad addysg uwch wedi ychwanegu dyddiad DBS yr ymgeisydd i'w gofnod ar *GCCarlein*, gan nodi bod y gwiriad DBS yn foddhaol a newid ei statws cofrestru i 'wedi cofrestru'.

Yna, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cadarnhau bod y cofrestru wedi'i gwblhau.

## Materion ymddygiad

Rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru ystyried a yw ymddygiad ymgeisydd, yn y gweithle a thu hwnt, yn debygol o beri risg i bobl sy'n cael gofal a chymorth.

Caiff hyn ei egluro yn y Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol sy'n nodi bod rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol beidio:

**"ymddwyn mewn modd, yn y gwaith neu'r tu allan i'r gwaith, a fyddai'n codi amheuaeth ynghylch eich addasrwydd i weithio yn y proffesiwn gofal cymdeithasol"**<sup>3</sup>

Ni fydd cofnod troseddol neu ddisgyblu o reidrwydd yn atal ymgeisydd rhag gallu cofrestru. Ond rhaid bodloni Gofal Cymdeithasol Cymru bod ymgeisydd yn addas i gofrestru.

Mewn rhai achosion, efallai na fydd datgelu trosedd yn cael unrhyw effaith ar addasrwydd yr ymgeisydd i weithio ym maes gofal cymdeithasol. Caiff pob achos ei ystyried ar ei rinweddau ei hun, sy'n golygu bod rhoi syniad o'r math o droseddau fyddai'n gwneud ymgeisydd yn anaddas yn anodd. Yr achosion mwyaf difrifol yn unig fyddai'n gwahardd unigolyn yn awtomatig rhag gweithio mewn gofal cymdeithasol.

Wrth ystyried addasrwydd yr ymgeisydd, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystyried:

- a) perthnasedd y drosedd i waith gofal cymdeithasol
- b) difrifoldeb y drosedd
- c) faint o amser sydd ers y drosedd
- d) a oes gan yr ymgeisydd batrwm o droseddu
- e) a yw sefyllfa'r ymgeisydd wedi newid ers cyflawni'r drosedd
- f) yr amgylchiadau'n ymwneud â'r drosedd
- g) esboniad yr ymgeisydd am y drosedd
- h) tystiolaeth o adsefydlu neu hyfforddiant
- i) tystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd o'i gymeriad da
- j) ymroddiad yr ymgeisydd i weithio'n ddiogel ym maes gofal cymdeithasol
- k) ennyn ymddiriedaeth a chyfrinachedd y bobl sy'n cael mynediad i ofal a chymorth, a gofalywr.

Os bydd y sefydliad addysg uwch yn cael gwybodaeth gan y DBS nad yw'r ymgeisydd wedi'i datgelu, rhaid i'r sefydliad roi gwybod i Ofal Cymdeithasol Cymru yn syth ac ymchwilio i'r mater. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n gohirio ei brosesau cofrestru nes y bydd ymchwiliad y sefydliad addysg uwch wedi dod i ben.

Gallwch gysylltu â thîm addasrwydd i ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru ar [aiy@gofalcymdeithasol.cymru](mailto:aiy@gofalcymdeithasol.cymru) am gyngor.

3. Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol Cymru 2017, tudalen 11, paragraff 5.8



## Cyflyrau iechyd<sup>4</sup>

Ni fydd rhoi gwybod i Ofal Cymdeithasol Cymru am gyflwr iechyd yn atal ymgeisydd rhag cael ei gofrestru, o reidrwydd.

Dyma'r cyngor y mae Gofal Cymdeithasol Cymru'n ei roi i ymgeiswyr:

**"Rhaid i chi ddweud wrthym ni am unrhyw gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol sy'n effeithio ar eich gallu i gyflawni unrhyw rôl gofal cymdeithasol yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys unrhyw rôl y gallech ei chael yn y dyfodol.**

**"Mae diogel yn golygu na ddylai eich cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol effeithio ar eich barn neu'ch perfformiad mewn ffordd sy'n peri risg i bobl eraill."**

Os bydd ymgeisydd yn datgelu cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol, gallai Gofal Cymdeithasol Cymru ofyn iddo am y cyflwr. Hefyd, gallai ofyn am ei gydsyniad i gael gafael ar adroddiad iechyd gan ei feddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol arall sy'n gwybod am ei gyflwr.

Weithiau, gall Gofal Cymdeithasol Cymru ofyn am gyngor ychwanegol gan arbenigwyr iechyd eraill. Os bydd angen gwneud hyn, bydd yn ysgrifennu at yr ymgeisydd i ofyn am ragor o fanylion a gallai ofyn iddo lenwi holiadur am ei gyflwr iechyd.

Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n ystyried natur a difrifoldeb y cyflwr ac unrhyw gyngor mae'n ei gael gan arbenigwyr iechyd. Gall Gofal Cymdeithasol Cymru benodi ymgynghorydd iechyd hefyd, os oes angen.

Os bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cofrestru ymgeisydd sydd â chyflwr iechyd, efallai y bydd angen gwneud addasiadau rhesymol er mwyn helpu'r myfyriwr yn y coleg ac ar leoliad gwaith. Dylai'r sefydliad addysg uwch, y myfyriwr ac asiantaeth letya'r myfyriwr drafod a chytuno ar unrhyw addasiadau all fod yn ofynnol. Efallai y bydd angen asesiad iechyd galwedigaethol wrth wneud hyn.



4. Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2018, Rheol 7 (1) Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth, er boddhad y cofrestrydd, nad oes amhariad ar addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer ac, i'r perwyl hwn, bydd yn darparu'r canlynol mewn perthynas â'r cais:

(a) pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol, yn weithiwr gofal cymdeithasol neu'n fyfyrwr gwaith cymdeithasol, tystiolaeth er boddhad y cofrestrydd:  
(ii) addasrwydd corfforol a meddyliol yr ymgeisydd i ymarfer ym maes gwaith cymdeithasol neu yn y disgrifiad o waith gofal cymdeithasol y mae'r ymgeisydd yn dymuno ymarfer ynddo.

## Crynhoi'r cyfrifoldebau

### Rhaid i'r ymgeisydd:

- ddatgan unrhyw wybodaeth berthnasol cyn gynted â phosibl ac ym mhob cam o'r broses
- sicrhau ei fod yn cwblhau ei gais i ymuno â chofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru mewn modd amserol ac ymateb yn brydlon i unrhyw ymholiadau
- rhoi gwybod i Ofal Cymdeithasol Cymru am unrhyw newidiadau fydd yn effeithio ar ei gofrestrriad sy'n ofynnol dan y rheolau cofrestru.<sup>5</sup>

### Rhaid i'r sefydliad addysg uwch:

- gydymffurfio â'r meini prawf dewis a chymeradwyo a nodir yn Rheolau Cymeradwyo ac Arolygu Cyrsiau Gradd Gwaith Cymdeithasol (Cymru) 2018<sup>6</sup>
- sicrhau bod hysbysiadu preifatrwydd ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn gyfredol ac yn caniatáu ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer asesiadau addaswydd ac ymchwiliadau
- sefydlu prosesau derbyn/dewis trylwyr gyda meini prawf tryloyw a theg, a gweithdrefnau clir ar gyfer asesu addaswydd sy'n cael eu hyrwyddo'n briodol

- trefnu gwiriadau manwl DBS fel rhan o asesu addaswydd yr ymgeisydd i hyfforddi fel gweithiwr cymdeithasol
- rhoi gwybod i bartneriaid cyflogi a Gofal Cymdeithasol Cymru pan fydd euogfarnau neu rybuddiadau troseddol yn cael eu datgelu neu'n dod i'r amlwg. Gall materion addaswydd godi ar unrhyw adeg: cyn neu yn ystod y cais, cyn neu yn ystod y cyfweiliad, neu wedi hynny. Rhaid i sefydliadau addysg uwch feddu ar weithdrefnau i gwmpasu'r holl sefyllfaoedd hyn. Rhaid i'r sefydliad addysg uwch roi gwybod i Ofal Cymdeithasol Cymru yn syth am unrhyw faterion a allai godi amheuaeth ynghylch cofrestrriad myfyriwr<sup>7</sup>

- sicrhau bod unrhyw gyflyrau iechyd yn cael eu hasesu'n briodol (p'un a yw hyn yn cael ei wneud trwy iechyd galwedigaethol neu'r meddyg teulu). Os bydd y cyflwr yn peri pryder ynghylch gallu'r myfyriwr i ymarfer yn ddiogel neu gymryd rhan yn y rhaglen, rhaid i'r sefydliad addysg uwch gyfeirio'r mater at Ofal Cymdeithasol Cymru
- sicrhau y gwneir addasiadau rhesymol i fodloni anghenion y myfyriwr a bod addasiadau ar waith ar ddechrau'r rhaglen neu ar y cyfle cyntaf ar ôl asesu anghenion y myfyriwr
- sicrhau bod asiantaeth letya'r myfyriwr yn ymwybodol o'r anghenion hyn.



5. Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2018, Rhan V, Rheol 26 (1) Rhaid i berson cofrestredig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol, hysbysu'r cofrestrtydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig, o unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a gofnodir yn y gofrestr mewn perthynas â'r person hwnnw.

6. Rheolau Cymeradwyo ac Arolygu Cyrsiau Gradd Gwaith Cymdeithasol (Cymru) 2018, Yr Atodlen – Meini prawf ar gyfer cymeradwyo a sicrhau ansawdd rhaglenni gradd mewn gwaith cymdeithasol.


7. Y fframwaith ar gyfer y radd mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru, Hydref 2018, tudalen 12, 9 (5) Rhaid i sefydliad – (a) hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru yn ddi-oad am unrhyw fater a allai fwrw amheuaeth ynghylch parhau i gofrestru myfyriwr gyda Gofal Cymdeithasol Cymru dan Adran 80 (1) (b) y Ddeddf.

### Rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru:

- ddarparu arweiniad a gwybodaeth briodol i sefydliadau addysg uwch ac ymgeiswyr am eu cyfrifoldebau perthnasol
- rhoi gwybod i'r ymgeisydd a'r sefydliad addysg uwch am ganlyniadau posibl asesiad cofrestru
- prosesu ceisiadau cofrestru yn brydlon a diweddarau'r sefydliad addysg uwch pan fydd angen asesiad pellach ar gais myfyriwr
- rhoi gwybod i'r sefydliad addysg uwch am unrhyw benderfyniadau a wneir gan achos cofrestru neu addaswydd i ymarfer yn ymwneud â'r cais.

## Trosolwg o'r broses ymgeisio

### Rolau a chyfrifoldebau



## Adran 2

### Materion addasrwydd sy'n codi yn ystod hyfforddiant cymhwys

Rhaid i sefydliadau addysg uwch feddu ar weithdrefnau addasrwydd er mwyn ymchwilio i unrhyw bryderon ynghylch addasrwydd myfyriwr i hyfforddi fel gweithiwr cymdeithasol. Dylai'r myfyrwr gael gwybod am y gweithdrefnau hyn ar ddechrau eu hyfforddiant a'r meini prawf ar gyfer eu defnyddio.

Mae gwahaniaeth pwysig rhwng pryder ynghylch addasrwydd proffesiynol a chwestiynau ynghylch cymhwysedd academiaidd ac ymarferol.

- Mae cymhwysedd myfyriwr yn fater i'w ystyried gan fwrdd arholi, wedi'i lywio gan ei banel asesu ymarfer, fel bo'n berthnasol. Mae'r rhain yn faterion sy'n syrthio y tu allan i weithdrefnau addasrwydd (rhesymau academiaidd)
- Dylai pryderon ynghylch addasrwydd myfyriwr o ran cydymffurfio â chodau ymarfer neu gamymddwyn proffesiynol fod yn destun gweithdrefnau addasrwydd (rhesymau ymddygiad).

Efallai yr amherir ar addasrwydd myfyriwr oherwydd:

- camymddygiad, gan gynnwys ei uniondeb
- perfformiad proffesiynol anfodddhaol
- euogfarn neu rybudd neu benderfyniad gan gorff rheoleiddio
- problemau'n ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol
- cael ei gynnwys ar y rhestr wahardd a gynhelir gan y DBS.

#### a. Addasrwydd – camymddygiad proffesiynol

Gall pobl ag anghenion gofal a chymorth, gofalwr, cyflogwr, darparwr cyfle dysgu ymarferol neu aelod o'r cyhoedd wneud cwynion am fyfyriwr.

Gellir cyflwyno'r gŵyn i'r sefydliad addysg uwch neu i dîm addasrwydd i ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n cyfeirio unrhyw gŵynion am fyfyriwr gwaith cymdeithasol at y sefydliad addysg uwch perthnasol i ymchwilio iddo.

Gellir ystyried bod ymddygiad y myfyriwr mewn unrhyw ran o'i fywyd yn berthnasol i'w addasrwydd – gan gynnwys ei ymddygiad yn y coleg neu leoliadau gwaith ymarferol, yn ei waith neu ei fywyd personol.

Os bydd trosedd na ddatgelwyd hyd yma'n dod i'r amlwg, neu os ceir myfyriwr yn euog o drosedd, dylid ymchwilio i hyn ar unwaith.

Os bydd cyflogwr myfyriwr ar secondiad yn dod yn ymwybodol o unrhyw bryderon addasrwydd, dylai roi gwybod i'r sefydliad addysg uwch a Gofal Cymdeithasol Cymru yn syth. Dylid egluro'r gofyniad hwn i noddwyr ar ddechrau'r rhaglen.

#### b. Addasrwydd – pryderon iechyd

Pan fydd myfyriwr yn datgelu cyflwr iechyd y mae'n teimlo ei fod yn effeithio ar ei allu i astudio ac ymarfer, bydd angen i'r sefydliad addysg uwch asesu'r hunanddatganiad hwn a sicrhau bod y myfyriwr yn cael cymorth ac arweiniad yn brydlon.

Gall rhaglenni ddefnyddio eu gweithdrefnau addasrwydd i ystyried problemau iechyd difrifol, yn enwedig os oes goblygiadau ar gyfer addasrwydd i ymarfer ar y cyflwr – hyd yn oed os nad yw wedi cael unrhyw gŵynion am ymddygiad y myfyriwr.

Yn yr achosion hyn, bydd y sefydliad addysg uwch yn:

- ystyried y camau y mae'r myfyriwr yn eu cymryd i reoli ei gyflwr iechyd
- chwilio am ragor o wybodaeth am gyflwr y myfyriwr a'r effaith bosibl mae'n ei chael ar bobl ag anghenion gofal a chymorth, a'u gofalwyr

- rhoi cyfle i'r myfyriwr ddangos ei fod yn deall goblygiadau posibl ei gyflwr iechyd ar bobl ag anghenion gofal a chymorth, a'i ofalwyr
- canfod rhagor o wybodaeth am ymroddiad y myfyriwr i weithio'n ddiogel.

### **Rôl y sefydliad addysg uwch wrth ymchwilio i pryderon addasrwydd**

Cyfrifoldeb y sefydliad addysg uwch yw ymchwilio i unrhyw bryderon am addasrwydd y myfyriwr i hyfforddi ac ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol.

Pan fydd sefydliad addysg uwch yn penderfynu cychwyn gweithdrefnau addasrwydd, dylai roi gwybod i'r partneriaid cyflogi, y noddwyr a thîm addasrwydd i ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru. Fel arfer, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n gwneud nodyn o'r wybodaeth hon ac yn aros am ganlyniad yr ymchwiliad. Fodd bynnag, os oes materion yn ymwneud â diogelu'r cyhoedd, gall Gofal Cymdeithasol Cymru ddewis gweithredu ar y wybodaeth a dderbynnir.

Dylai'r gweithdrefnau addasrwydd ganiatáu i'r sefydliad addysg uwch wahardd myfyriwr rhag ymarfer a/neu astudio, lle bo'n briodol, a rhaid iddyn nhw roi gwybod i Ofal Cymdeithasol Cymru ac unrhyw gyflogwyr sy'n noddî'r myfyriwr os bydd hyn yn digwydd.

Er nad yw panel/gwrandawriad y sefydliad addysg uwch yn weithdrefn gyfreithiol ffurfiol, bydd y sefydliad addysg uwch yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb i gydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998 i sicrhau bod myfyrwr:

- yn cael gwrandawriad teg o fewn amser rhesymol gan banel gwybodus, annibynnol a diduedd
- yn gwybod beth yw'r dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno a'i deall
- yn ymwybodol bod ganddynt hawl i gael eu cynrychioli.

Hefyd, bydd angen i weithdrefnau'r sefydliad addysg uwch fod yn gyson â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Dylai'r sefydliad addysg uwch sicrhau bod y myfyriwr yn gwybod:

- bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n cael gwybod beth yw canlyniad yr ymchwiliad ac yn ystyried eu cofrestrriad
- bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn derbyn yr holl ohebiaeth ac adroddiadau yn ymwneud â'r gwrandawriad addasrwydd. Os oes angen, efallai bydd yn ymchwilio ymhellach i unrhyw ddigwyddiadau sy'n effeithio ar iechyd y cyhoedd
- os yw'r myfyriwr yn cael ei noddi, rhoddir gwybod i'r cyflogwr hefyd.

Bydd y myfyriwr yn aros ar y Gofrestr wrth i'r ymchwilio fynd rhagddo, ond gellir gosod Gorchymyn Atal Dros Dro neu Orchymyn Cofrestru Amodol Dros Dro os oes angen, wrth gynnal y gweithdrefnau addasrwydd.


Rhaid i'r sefydliad addysg uwch roi gwybod i Ofal Cymdeithasol Cymru a'r noddwyr beth yw canlyniad yr ymchwiliad a ph'un a yw'r myfyriwr yn addas i barhau i astudio ar y rhaglen waith cymdeithasol.

Dylai'r sefydliad addysg uwch gofnodi unrhyw wybodaeth am amgylchiadau, tystiolaeth a chanlyniadau gweithdrefnau addasrwydd yn glir, a throsglwyddo'r wybodaeth hon i Ofal Cymdeithasol Cymru.

Dylai'r sefydliad addysg uwch feddu ar broses glir sy'n caniatáu'r myfyriwr i apelio yn erbyn canlyniad ymchwiliad addasrwydd. Os yw'r myfyriwr wedi'i atal, dylai'r gweithdrefnau addasrwydd ganiatáu i'r ataliad barhau wrth aros am yr apêl.

## Trosolwg o ddefnydd y weithdrefnau addasrwydd

### Rolau a chyfrifoldebau



## Myfyrwr sy'n tynnu yn ôl o'u rhaglenni

### a. Os bydd y sefydliad addysg uwch yn penderfynu bod myfyriwr yn anaddas i barhau ar raglen

Rhaid i'r sefydliad addysg uwch roi gwybod i dimau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru pan fydd myfyriwr yn cael ei atal o'r rhaglen oherwydd pryderon ynghylch addasrwydd.

Dylid hysbysu'r myfyriwr yn ysgrifenedig fod Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cael gwybod. Os yw'r myfyriwr yn cael ei noddi neu ei gefnogi gan gyflogwr, dylid rhoi gwybod i'r cyflogwr hefyd.

Dylai'r sefydliad addysg uwch sicrhau ei fod yn cadw cofnodion manwl a chynhwysfawr o unrhyw weithdrefnau addasrwydd a'u canlyniad. Bydd y cofnodion hyn yn helpu Gofal Cymdeithasol Cymru i ymchwilio a yw myfyriwr yn addas i aros ar y Gofrestr. Hefyd, bydd yn helpu'r sefydliad addysg uwch i ymateb i apeliadau gan y myfyriwr neu adolygiad allanol.

### b. Os bydd y myfyriwr yn tynnu yn ôl o'r cwrs

Os bydd myfyriwr yn tynnu yn ôl o gwrs am resymau academaidd, iechyd neu bersonol, neu nid yw'n dymuno parhau â'i hyfforddiant, rhaid i'r sefydliad addysg uwch hysbysu'r tîm cofrestru yng Ngofal Cymdeithasol Cymru. Bydd y myfyriwr yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr.

Rhaid i'r sefydliad addysg uwch roi gwybod a yw ymchwiliad addasrwydd yn mynd rhagddo neu mae penderfyniad ar y gweill yn ymwneud â'r myfyriwr. Disgwylir i sefydliadau addysg uwch gwblhau'r gweithdrefnau hyd yn oed os nad yw'r myfyriwr yn cymryd rhan yn y rhaglen. Bydd y myfyriwr yn aros ar y Gofrestr wrth aros am ddiwedd yr ymchwiliad/canlyniad. Yna, bydd y tîm addasrwydd i ymarfer yn ystyried pa gamau y mae angen eu cymryd a bydd yn rhoi gwybod i'r myfyriwr/sefydliad addysg uwch am y penderfyniad.



## Crynhoi'r cyfrifoldebau

### Rhaid i'r myfyriwr:

- roi gwybod i'r sefydliad addysg uwch a Gofal Cymdeithasol Cymru am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth y maent wedi'i darparu cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn cynnwys unrhyw faterion disgyblu neu droseddol, neu newidiadau i'w iechyd fydd yn effeithio ar ei allu i weithio'n ddiogel ym maes gofal cymdeithasol.

### Rhaid i'r sefydliad addysg uwch:

- sefydlu gweithdrefnau clir ar gyfer asesu addasrwydd sy'n hygyrch i fyfyrwyr
- sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol y bydd eu gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda phartneriaid cyflogi a Gofal Cymdeithasol Cymru yn rhan o'u hymchwiliadau addasrwydd
- sicrhau bod cyflogwyr yn gwybod bod rhaid iddynt roi gwybod i Ofal Cymdeithasol Cymru a phartneriaid cyflogi ar ddechrau'r rhaglen am unrhyw bryderon addasrwydd yn ymwneud â myfyriwr maent yn ei noddi
- rhoi gwybod i Ofal Cymdeithasol Cymru pan fydd pryderon ynghylch addasrwydd yn codi ynglŷn â myfyrwyr cofrestredig
- cychwyn ymchwiliad i addasrwydd os bydd trosedd na ddatgelwyd hyd yma'n dod i'r

amllwg neu os caiff myfyriwr euogfarn am drosedd

- defnyddio gweithdrefnau addasrwydd os bydd materion sy'n gysylltiedig ag iechyd yn codi cwestiynau ynghylch addasrwydd parhaus myfyriwr ar gyfer gwaith cymdeithasol
- sicrhau bod addasrwydd y myfyriwr yn cael ei ailasesu pan fydd unrhyw wybodaeth newydd yn dod i'r amlwg. Rhaid i'r sefydliad addysg uwch ystyried effaith y wybodaeth ar allu'r myfyriwr i barhau ar y rhaglen neu gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru
- rhoi gwybod i Ofal Cymdeithasol Cymru pan na fydd myfyriwr wedi'i gofrestru ar y rhaglen mwyach a'r rhesymau pam. Dylai'r sefydliad addysg uwch roi gwybod a oes ymchwiliad addasrwydd ar waith neu os oes penderfyniad ar y gweill ynglŷn â'r myfyriwr hwnnw
- penderfynu a oes angen ailymgeisio am wiriad manwl y DBS os bydd myfyriwr yn dychwelyd i astudio ar ôl absenoldeb hir a, lle bo'n briodol, ailymgeisio am wiriad y DBS.

### Rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru:

- ddarparu arweiniad a gwybodaeth briodol i sefydliadau addysg uwch, cyflogwyr a myfyrwyr am eu cyfrifoldebau
- rhoi gwybod i'r sefydliad addysg uwch a'r myfyriwr am unrhyw wybodaeth neu atgyfeiriadau mae'n eu derbyn amdano
- rhoi gwybod i'r sefydliad addysg uwch am unrhyw benderfyniad a wneir gan weithdrefn gofrestru neu addasrwydd i ymarfer ynghylch myfyriwr.

### Rhaid i'r cyflogwr:

- roi gwybod i'r sefydliad addysg uwch a Gofal Cymdeithasol Cymru yn syth pan fydd yn cael gwybod am unrhyw bryderon ynghylch addasrwydd myfyriwr.





## Adran 3

### Dyfarniadau ôl-gymhwyso

Rhaid i sefydliadau addysg uwch sydd wedi'u cymeradwyo i gynnig dyfarniadau ôl-gymhwyso feddu ar brosesau er mwyn ymdrin â gweithwyr cymdeithasol sy'n anaddas i barhau â'i hyfforddiant ôl-gymhwyso ac aros ar y Gofrestr.

Bydd llawer o sefydliadau addysg uwch yn gallu defnyddio'r gweithdrefnau addasrwydd maen nhw wedi'u datblygu ar gyfer y radd gwaith cymdeithasol. Fodd bynnag, bydd angen ystyried rhai o'r gwahaniaethau oherwydd statws gwahanol y myfyrwyr a gan fod y mwyafrif ohonynt yn gyflogedig.

Dylai pob myfyriwr ôl-gymhwyso fod yn gofrestredig fel gweithiwr cymdeithasol cymwys. Gellir gwirio hyn gan y Gofrestr<sup>8</sup>. Bydd y rhan fwyaf yn gyflogedig ond bydd eu statws cyflogaeth yn amrywio. Er enghraifft, efallai eu bod yn:

- gyflogedig gan awdurdod lleol, darparwr annibynnol neu ymddiriedolaeth ieuchyd
- gweithio fel gweithiwr asiantaeth trwy asiantaeth gyflogaeth
- gweithio fel gweithiwr cymdeithasol annibynnol.



Dylai'r gweithdrefnau addasrwydd ar gyfer myfyrwyr ôl-gymhwyso ddilyn yr arweiniad yn adran 2 y ddogfen hon o ran y meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau ac egwyddorion sy'n sail i ymchwiliadau addasrwydd. Fodd bynnag, ceir rhai gwahaniaethau o ran y broses a sut a phryd y rhennir gwybodaeth gyda chyflogwyr a Gofal Cymdeithasol Cymru:

- Os bydd y myfyriwr yn destun ymchwiliad disgyblu difrifol a/neu'n cael ei atal am resymau'n ymwneud ag anaddasrwydd, dylai'r cyflogwr hysbysu'r sefydliad addysg uwch a Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyn yn berthnasol i holl gyflogwyr gweithwyr cymdeithasol cofrestredig.
- Os bydd pryderon ynghylch addasrwydd y myfyriwr yn codi ar y cwrs, bydd y sefydliad addysg uwch yn hysbysu'r cyflogwr a Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn cytuno ar y camau i'w cymryd. Mewn rhai achosion – er enghraifft os nad yw cyflogwyr yn ystyried mai eu dyletswydd nhw yw cynnal ymchwiliad addasrwydd a rhoi gwybod i Ofal Cymdeithasol Cymru – efallai byddai'n briodol i'r sefydliad addysg uwch weithredu'n annibynnol dan eu gweithdrefnau addasrwydd eu hunain a'u dyletswydd i ofalu am y cyhoedd. Os bydd hyn yn digwydd, rhaid i'r sefydliad addysg uwch hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru a'r cyflogwr.
- Os codir pryderon am addasrwydd myfyriwr hunangyflogedig, rhaid i'r sefydliad addysg uwch gychwyn y gweithdrefnau addasrwydd a rhoi gwybod i Ofal Cymdeithasol Cymru. Hefyd, rhaid i'r sefydliad addysg uwch hysbysu unrhyw gyflogwyr y mae'n ymwybodol pwy mae'n ystyried ei gyflogi, neu pwy allai fod yn cyflogi'r myfyriwr yn breifat, neu ble mae ymarfer yn cael ei asesu.